Cyfeillion Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

Friends of National Museum Wales
Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

DIWRNOD ASTUDIO MARGAM
Dydd Iau 18 Mehefin 2015

Cafodd y Diwrnod Astudio hwn ei drefnu drwy gydweithrediad Adrannau Celf ac Archeoleg Amgueddfa Cymru. Bydd cyfle i archwilio safle'r plasty a'r parc fel y'u darlunnir ym mheintiadau tirlun Margam sydd i'w gweld yn Oriel 10, Amgueddfa Cymru, Caerdydd, yn dangos yr ystad fel yr oedd tua 1700, a hefyd ddarganfod mwy am deulu'r Manseliaid. Cawn ein tywys gan Oliver Fairclough a Dr Mark Redknap. Dyma fras amcan o'r amserlen arfaethedig:

10.30 yb Cyrraedd ar eich liwt eich hunan y maes parcio ym Mharc Gwledig Margam (trowch oddi ar yr M4 ar Gyffordd 38 a dilyn yr arwyddion), a chwrdd wrth y Caban Mynedfa i gerdded at yr Orendy i gael paned o goffi.
Bydd parcio am ddim **ac efallai y gallech rannu car; cysylltwch ag Ann Saer).**

11.00 Ymweld â beddrodau'r teulu yn yr eglwys a safle'r abaty a'r plasty gynt
12.45 yp Byrbryd yn yr Orendy
1.45 Archwilio'r castell Gothig Fictoraidd , sydd yn cael ei adfer ar hyn o bryd
2.30 Ymweld â'r ty *Citrus* newydd, neu daith fer o gwmpas y parc gydag un o Gyfeillion Parc Margam
3.30- 4.00 Paned o de cyn ffarwelio

Yn anffodus, rhaid cyfyngu ein nifer i 30 o bobl yn unig, gyda lleiafswm o 20 er mwyn cynnal y costiau. Felly, y cyntaf i'r felin gaiff falu! Bydd angen gwisgo esgidiau addas ar gyfer cerdded,a chofiwch am ambarel hefyd. Pris y diwrnod fydd **£20,** sydd yn cynnwys coffi a phice bach, byrbryd, cyfraniad i'r Parc ac i Amgueddfa Cymru, a chynnal costau'r tywyswyr.

Os hoffech ymuno â ni, a wnewch chi lenwi'r daflen isod a'i dychwelyd gyda'ch siec (**sy'n daladwy i 'Cyfeillion Amgueddfa Cymru')** ynghyd ag amlen yn dwyn stamp os nad oes gennych gyfeiriad ebost) at Ann Saer, 15 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QA erbyn dydd Gwener, 12 Mehefin 2015. (ffôn: 029 2056 2756; ebost: ann.saer@talktalk.net)

Cyfeillion Amgueddfa Cymru: Diwrnod Astudio Margam, Iau 18 Mehefin 2015

Enw/au……..Cyfeiriad……

Cod Post…… Ffôn ……ebost……..

Carwn archebu ……(l)le ar gyfer y digwyddiad uchod.. Amgaeaf amlen â stamp a'm cyfeiriad,

a siec am £……. yn daladwy i Cyfeillion Amgueddfa Cymru.

Cadarnhaf fy mod/ein bod yn aelod/au o Gyfeillion Amgueddfa Cymru. ……